

Arweiniad i rôl Gwasanaeth Erlyn y Goron  
mewn achosion lle mae person  
wedi marw yn y ddalfa

---



## Rhagair gan Y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Pan gefais fy mhenodi yn Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn 2013, dywedais y byddai Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn gwneud popeth o fewn ein gallu i wneud profiadau dioddefwyr o'r system cyfiawnder troseddol yn haws ac yn well, ac roeddwn wedi cydnabod y gwelliannau y medrid eu gwneud yn nhermau'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu â dioddefwyr. Rwy'n gwybod sut y gall un profiad gwael o ganlyniad i gyfathrebu dryslyd a di-gydymdeimlad gan y CPS danseilio hyder rhywun yn y system gyfan.

Rydym angen hyder y rhai hynny rydym yma i'w gwasanaethu. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd rhywun yn marw yn y ddalfa.

Pan fydd rhywun yn marw yn nalfa'r wladwriaeth, bydd eu teulu a'u ceraint yn disgwyl - yn hollol deg - i'r system cyfiawnder troseddol gynnal archwiliad teg, trylwyr, tryloyw ac annibynnol. Yn yr un modd, dylent ddisgwyl cyfathrebu clir â chydymdeimlad, a thriniaeth barchus pob amser.

Mae adeiladu dealltwriaeth y cyhoedd, eu hymddiriedaeth a'u hyder yn ein ffyrdd o wneud penderfyniadau yn hanfodol. Rwy'n gobeithio y bydd y llyfryn hwn yn llwyddo i egluro'r prosesau sydd mewn lle gan y CPS a'i bartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol mewn cysylltiad â marwolaethau yn y ddalfa.

Alison Saunders CB

Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

| <b>Cynnwys</b>  | <b>Rhif tud.</b> |
|---|------------------|
| <b>Rhagair</b>  | 2                |
| <b>Rhan Un - Trosolwg</b>                               | 4                |
| Cyflwyniad  |                  |
| Diffinio 'marwolaeth yn y ddalfa'                       |                  |
| Gwasanaeth Erlyn y Goron                                |                  |
| <i>Blwch un - Marwolaeth yn ddalfa a'r 'hawl i fyw'</i> | 7                |
| <b>Rhan Dau- Yr Archwiliad</b>                          | 8                |
| Yn syth wedi'r farwolaeth yn y ddalfa                   |                  |
| <i>Blwch dau - rôl y crwner</i>                         | 9                |
| Rôl yr archwiliwr                                       |                  |
| Rôl Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ystod yr archwiliad     |                  |
| <i>Blwch tri - Rhoi gwybod i'r dioddefwyr</i>           | 12               |
| <b>Blwch Tri - Penderfynu a Ddylid Dwyn Achos</b>       | 13               |
| Cod Gwasanaeth Erlyn y Goron                            |                  |
| Detholiad o gyhuddiadau                                 |                  |
| Achosion pan na ddygir cyhuddiad gerbron                |                  |
| Achosion pan ddygir cyhuddiad gerbron                   |                  |
| ATODAID A- siart llif ar gyfer prosesau CPS             | 17               |

## **RHAN UN - TROSOLWG**

### **Cyflwyniad**

Mae'r arweiniad hwn yn darparu trosolwg o'r prosesau a ddilynir gan Wasanaeth Eryl y Goron (CPS) pan fydd rhywun yn marw yn y ddalfa. Mae'n egluro rôl y CPS wrth benderfynu a ddylid erlyn ai peidio yn yr achosion hyn, ac yn egluro sut y gwneir y penderfyniad hwnnw.

O reidrwydd, mae marwolaethau yn y ddalfa yn galw ar i lawer o sefydliadau gwahanol gydweithio'n agos. Tra bod yr arweiniad hwn yn cyfeirio at rai o'r sefydliadau hynny, ei brif bwrpas yw egluro rôl neilltuol Gwasanaeth Eryl y Goron.

Y gobaith yw y bydd yr arweiniad hwn o fudd i deulu unrhyw un sydd wedi marw yn y ddalfa, ac yn cynnig rhyw radd o dawelwch meddwl ar adeg sydd yn debyg o fod yn un llawn straen.

### **Diffinio 'Marwolaeth yn y ddalfa'.**

Term cyffredinol yw 'marwolaeth yn y ddalfa', un sydd yn cyfeirio at farwolaeth unrhyw berson yn nalfa'r wladwriaeth. Nid yw wedi ei gyfyngu i farwolaethau sydd yn digwydd mewn carchar neu yn nwylo'r heddlu.

Nid yw achosion sydd yn cynnwys saethu ond heb beri marwolaeth nac yn peri niwed difrifol o fewn cwmpasgylch yr arweiniad hwn; er mwyn dechrau ar y prosesau a roddwyd mewn lle gan y CPS, rhaid bod marwolaeth wedi digwydd.

Mae'r rhestr a ganlyn yn esbonio rhai amgylchiadau pan fod modd dweud i farwolaeth person ddigwydd tra yn y ddalfa.

- tra dan arestiad yn swyddfa'r heddlu;
- tra'n cael eu dal dan glo mewn carchar neu swyddfa'r heddlu;
- tra dan arestiad gan heddwys;
- tra'n cael eu cadw er mwyn eu chwilio;
- tra'n cael eu cadw mewn man cadw cyfreithiol e.e. canolfan gadw mewnfudwyr;

- tra bod plentyn neu berson ifanc yn y ddalfa er mwyn eu diogelwch eu hunain;
- o ganlyniad i gael eu saethu gan heddwes;
- yn dilyn unrhyw 'gyswllt arall gyda'r heddlu' lle gall fod dolen rhwng y cyswllt a'r farwolaeth.

Gellir ystyried hunan-laddiad fel marwolaeth yn y ddalfa hefyd, fel y gall marwolaeth yn dilyn ymladd rhwng carcharorion, os oes arwydd bod esgeulustod heddwes wedi methu atal y farwolaeth.

Nid yw marwolaeth mewn damwain ar y ffordd, hyd yn oed os yw'r person sydd yn marw dan arestiad ac yn anelu at orsaf yr heddlu mewn car heddlu, yn syrthio oddi mewn i ddiffiniad y CPS o farwolaeth yn y ddalfa.

Mae hunaniaeth neu gyflogaeth y person sydd wedi achosi'r farwolaeth yn ddibwys ym mhob achos ac eithrio saethu angheuol gan yr heddlu. Er enghraifft, os yw person yn marw o ganlyniad i driniaeth feddygol hynod o esgeulus gan feddyg yr heddlu tra yn y ddalfa, mae hynny yn dal i gael ei ystyried yn farwolaeth yn y ddalfa. Gellir darllen mwy am y prawf ar gyfer sefydlu 'esgeulustod aruthrol' yn nes ymlaen yn yr arweiniad hwn.

**Mae'n bwysig cofio nad yw pob marwolaeth yn y ddalfa yn digwydd o ganlyniad i drosedd, neu i'w hystyried fel marwolaeth amheus.** Er y bydd archwiliad yn digwydd bob tro i sefydlu achos y farwolaeth, nid yw'n anochel y bydd cyhuddiadau troseddol yn dilyn; bydd hynny yn dibynnu yn llwyr ar ffeithiau'r achos.

## **Gwasanaeth Erlyn y Goron**

GEG (CPS) yw'r prif awdurdod erlyn yng Nghymru a Lloegr, gan weithredu yn annibynnol mewn achosion a archwilir gan yr heddlu ac eraill. Cafodd ei greu gan Ddeddf Erlyn Troseddau 1985, a sefydlodd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) fel pennaeth. Alison Saunders yw'r DPP ar hyn o bryd. Swyddogaethau craidd y CPS yw i:

- benderfynu pa achosion y dylid eu herlyn - gan gadw pob un dan adolygiad parhaus;
- benderfynu'r cyhuddiadau priodol mewn achosion mwy difrifol neu gymhleth - cynghori'r heddlu yn ystod camau cynnar archwiliad;

- baratoi achosion a'u cyflwyno yn y llys - gan ddefnyddio ystod o eiriolwyr mewnol, eiriolwyr neu asiantau hunan-gyflogedig yn y llys; a
- ddarparu gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth i ddioddefwyr a thystion yr erlyniad.

Wrth ymhél â'u swyddogaethau, arweinir y CPS gan y set ganlynol o werthoedd craidd:

- 'Byddwn yn annibynnol a theg';
- 'Byddwn yn onest ac agored';
- 'Byddwn yn trin pawb â pharch';
- 'Byddwn yn ymddwyn mewn modd proffesiynol ac yn anelu at ragoriaeth'.

Pan yn penderfynu pa achosion y dylid eu herlyn, mae'n rhaid i erlynwyr y CPS gydymffurfio â'r *Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron*. Mae'r Cod yn cynnwys prawf dau-gam i erlynwyr, sydd yn gofyn iddynt sicrhau bod digon o dystiolaeth ar gael i gyfiawnhau erlyniad, ac y byddai erlyniad o fudd i'r cyhoedd. Gellir canfod gwybodaeth bellach am y Cod ymhellach ymlaen yn yr arweiniad hwn.

Yn ogystal â'r Cod, mae gan y CPS drefniadau penodol mewn lle ar gyfer delio gyda marwolaethau yn y ddalfa. Rhoddwyd y trefniadau hyn, sydd yn cynnwys trosolwg gan y DPP, mewn lle yn dilyn adolygiad yn 2003 gan y Twrnai Cyffredinol ar y pryd, *"Role and Practices of the Crown Prosecution Service in Cases Arising from a Death in Custody"*.

Fel awdurdod sydd yn erlyn, nid oes gan y CPS rym i gyfarwyddo'r heddlu, Comisiwn Annibynnol Cwynion yr Heddlu, nac unrhyw asiantaeth arall sydd yn arwain archwiliad. Caiff rôl y CPS a'i bartneriaid yn ystod yr archwiliad, ac unrhyw erlyniad a all ddeillio o hyn, eu harchwilio yn rhan nesaf yr arweiniad hwn.

## **Blwch 1 - Marwolaethau yn y Ddalfa a'r 'Hawl i Fyw'.**

Mae Erthygl 2 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) yn datgan y dylid, amddiffyn hawl pob dinesydd i fyw gan y gyfraith. Fel llofnodwr yr ECHR, mae'n rhaid i'r Deyrnas Unedig gynnal yr hawl sylfaenol hwn, a'r hawliau eraill a warantwyd gan y Confensiwn. Cryfhawyd effaith hawliau'r Confensiwn ymhellach yn y DU yn 2000, pan ddaeth Deddf Hawliau Dynol 1998 i rym.

Yn achos marwolaeth yn y ddalfa, gellir hawlio bod y wladwriaeth wedi methu cymryd camau priodol i ddiogelu bywyd yr un a fu farw. Os mai dyma farn y llys (naill ai yn y DU neu gan y Llys Ewropeaidd ar Hawliau Dynol) fe ellir canfod bod y wladwriaeth wedi gweithredu yn anghyfreithlon. Am y rheswm hyn, mae'n hanfodol bod archwiliad annibynnol a thrylwyr i amgylchiadau'r farwolaeth yn digwydd, ar y cyd â phenderfyniad cadarn gan y CPS ynghylch a ddylid dwyn cyhuddiad ai peidio.

Mae testun Erthygl 2 yn darllen fel a ganlyn:

- 1. Rhaid amddiffyn hawl pawb i fyw gan y gyfraith. Ni chaiff unrhyw un ei amddifadu o'i fywyd yn fwriadol ac eithrio wrth weithredu dedfryd llys yn dilyn euogfarn am drosedd sydd yn dwyn cosb a ddarperir gan y gyfraith.*
- 2. Ni ddylid ystyried amddifadu bywyd fel digwyddiad sydd yn tramgwyddo'r Erthygl hon pan fydd yn digwydd o ganlyniad i ddefnyddio grym nad yw'n fwy na'r hyn sydd yn hollol angenrheidiol:*
  - (a) wrth amddiffyn person rhag trais anghyfreithlon;*
  - (b) er mwyn gweithredu restiad cyfreithlon neu i atal person sydd dan gadwad cyfreithlon rhag dianc;*
  - (c) gweithredu cyfreithlon at ddibenion gwastrodi terfysg neu wrthryfel.*

## **RHAN DAU - YR ARCHWILIAD**

### **Yn syth wedi marwolaeth yn y ddalfa**

Bydd marwolaeth rhywun yn nalfa'r wladwriaeth yn arwain at ymholiadau lleol ar unwaith. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a oedd trosedd wedi ei chyflawni, ac ai'r drosedd hon achosodd y farwolaeth.

Yn ystod y cam cychwynnol hwn, fe all y bydd meddyg neu berson awdurdodedig yn cyfeirio'r farwolaeth at y crwner (gweler blwch un - 'Rôl y Crwner'). Os yw'n ymddangos ar unrhyw adeg bod trosedd wedi ei chyflawni, gall y crwner benderfynu gohirio ei archwiliad/ei harchwiliad nes bod yr archwiliad wedi ei gwblhau, a'r CPS wedi penderfynu a ddylid erlyn.

Caiff penderfyniad ei wneud ynghylch pa asiantaeth sydd â chyfrifoldeb dros arwain yr archwiliad troseddol (y cyfeirir ato fel 'uchafiaeth' wrth weithredu'r gyfraith), a bydd yn dibynnu ar amgylchiadau'r farwolaeth. Yn y rhelyw o achosion, bydd y rhan fwyaf o archwiliadau troseddol i farwolaethau sydd yn digwydd mewn amgylchedd y tu allan i amgylchedd yr heddlu, er enghraifft carchar neu ddalfa mewnfudwyr, yn cael eu harchwilio gan yr heddlu. Bydd archwiliadau i farwolaethau sydd yn digwydd yn swyddfa'r heddlu, neu yn dilyn cyswllt â'r heddlu, yn cael eu harwain gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC). Sefydlwyd yr IPCC yn 2004 gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002. Un o'i dasgau pennaf yw archwilio, rheoli neu arolygu honiadau o ymddygiad troseddol gan swyddogion yr heddlu. Gall ddewis rheoli neu arolygu yr archwiliad, neu archwilio yr achosion mwyaf difrifol yn annibynnol. Mae'r IPCC yn annibynnol o'r heddluoedd, y CPS a'r Llywodraeth.

**Os yw'r archwilwyr yn credu bod tystiolaeth yn awgrymu bod trosedd wedi digwydd, rhaid iddynt gyfeirio'r penderfyniad ynghylch a yw rhywun i gael ei gyhuddo i'r CPS.**



## Blwch 2 - rôl y crwner

Pan fydd person yn marw yn y carchar neu yn nwylo'r heddlu, cyfeirir y mater at y crwner. Swyddog barnwrnol annibynolyw crwner sydd yn eistedd yn llys y crwner. Bydd gwrandawriad cyhoeddus, a elwir yn "gwest" yn dilyn. Diben hwn yw sefydlu pwy sydd wedi marw, a sut, pa bryd a ble digwyddodd y farwolaeth. Bydd crwner yn dod i gasgliad (a elwid gynt yn rheithfarn) ar ddiwedd y cwest. Mae'r casgliadau fydd ar gael yn cynnwys (ond heb fod yn gyflawn):

- damwain neu anffawd;
- marwolaeth yn gysylltiedig ag alcohol/cyffuriau;
- lladd cyfreithlon;
- lladd anghyfreithlon;
- achosion naturiol;
- gwrthdrawiad cerbydau;
- hunan-laddiad - bod person wedi rhoi terfyn ar ei fywyd/bwyd ei hun yn fwriadol;
- rheithfarn naratif.

Gall y crwner gofnodi rheithfarn agored hefyd, os nad oes digon o dystiolaeth ar gyfer unrhyw gasgliad arall.

Wedi i gwest gael ei agor, gellir ei ohirio nes bod unrhyw ymchwiliadau eraill (gan gynnwys ymchwiliadau troseddol) wedi eu cwblhau. Dywed y gyfraith bod yn rhaid i grwner atal cwest dros dro os yw person:

(a) wedi ei gyhuddo o ddynladdiad neu

(b) gyda throsedd gysylltiedig nad yw'n ddynladdiad a bod y DPP yn gofyn am atal dros dro.

Gall crwner atal ymchwiliad dros dro hefyd os bydd y DPP yn gofyn iddo wneud hynny ar y sail y gellir cyhuddo'r person o ddynladdiad neu drosedd gysylltiedig.

Nid oes gan y CPS rôl ffurfiol yn ystod cwest. Fodd bynnag, gall erlynydd y CPS fod yn bresennol ar adegau i glywed unrhyw dystiolaeth newydd a pherthnasol. Unwaith y daw'r cwest i ben, bydd yr erlynydd yn ystyried yr holl dystiolaeth sydd bellach ar gael, gan gynnwys tystiolaeth a gynigiwyd yn y cwest. Nid yw'r cwest yn penderfynu a yw rhywun yn euog o drosedd, ac nid yw canlyniad y cwest yn rhwymo'r CPS; hyd yn oed pan gyflwynwyd rheithfarn o ladd anghyfreithlon, nid yw'n golygu o reidrwydd bod digon o dystiolaeth ar gael i'r CPS erlyn unrhyw un.

## **Rôl yr ymchwilydd**

Bydd yr ymchwilydd yn casglu tystiolaeth am yr hyn a ddigwyddodd. Mewn achos troseddol, gall 'tystiolaeth' gynnwys datganiadau gan dystion, pethau ar ddangos, cyfweiliadau ac adroddiadau gan arbenigwyr. Bydd archwiliadau i farwolaethau yn y ddalfa yn aml yn galw am ddatganiadau dystion gan aelodau'r cyhoedd, swyddogion yr heddlu a swyddogion cyhoeddus eraill a all fod a gwybodaeth am y farwolaeth. Gall yr arddangosion gynnwys dogfennau ysgrifenedig megis cofnodion y ddalfa, a thystiolaeth fideo megis hen ffilm o du mewn ystafell yn nalfa swyddfa'r heddlu neu gell mewn carchar.

Bydd angen i'r ymchwilydd yn aml gael gafael ar adroddiadau arbenigwyr i sefydlu achos y farwolaeth. Gall y rhain gynnwys adroddiadau gan uwch ymarferwyr meddygol, megis niwropatholegwyr neu wenwynyddion. Mewn rhai achosion, fe all y bydd angen llawer o adroddiadau gwahanol gan arbenigwyr. Mae'r angen am adroddiadau gan arbenigwyr, a'r amser y mae'n cymryd i'w paratoi, yn un o'r rhesymau pam na fydd ymchwiliadau i farwolaeth yn y ddalfa yn cael eu cwblhau yn fuan (yn rheolaidd maent yn cymryd misoedd, neu hyd yn oedd flynyddoedd i'w cwblhau). Bydd y CPS yn gwneud beth bynnag y medr i leihau oedi diangen, ac mae wedi ymrwymo i roi gwybod i deuluoedd sy'n galaru pan fydd oedi yn digwydd.

## **Rôl Gwasanaeth Erllyn y Goron yn ystod yr ymchwiliad**

Gall yr ymchwilydd ofyn i'r CPS am gyngor cyfreithiol yn gynnar yn yr achos, a gall hyn gynnwys arweiniad ar warantu yr angen am ymchwiliad troseddol ai peidio. Mae'n rhaid i'r CPS gynghori'r ymchwilydd, ond ni fedr eu cyfarwyddo.

Os oes ymchwiliad, bydd y CPS a'r corff sy'n ymchwilio yn cydweithio'n agos er mwyn sicrhau ymchwiliad trylwyr. Bydd y ddau barti yn cyfarfod ac yn trafod:

1. Y trywydd ymchwiliad i'w ddilyn
2. Unrhyw gyngor arbenigol y dylid ei gyrchu
3. Graddfeydd amser ar gyfer terfynu'r ymchwiliad
4. Trefniadau ar gyfer diweddarau gwybodaeth ar gyfer y teulu a'r crwner

5. A oes unrhyw sail i gredu bod trosedd wedi digwydd.

Mae pob achos o farwolaeth yn y ddalfa sydd yn cael eu cyfeirio at y CPS yn cael eu trin gan erlynwyr yn yr **Uned Troseddau Arbennig**. Mae Troseddau Arbennig yn ffurfio rhan o'r **Adran Troseddau Arbennig a Gwrth Frawychiaeth**, â swyddfeydd yn Llundain ac Efrog Newydd. Mae gan yr uned hon uwch erlynwyr sydd wedi eu hachredu (neu eu 'labelu') yn arbennig gan y DPP i gynghori ar ac erlyn achosion o farwolaethau yn y ddalfa. Erlynwyr achrededig yn unig sydd yn cael eu haseinio i'r achosion hyn.

Bydd yr uwch erlynydd yn cynghori'r ymchwilyr, ac ymhen y rhawg yn ystyried pob darn o dystiolaeth er mwyn penderfynu a oes digon o dystiolaeth i erlyn.

Os yw'n ymddangos ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwiliad nad yw'n debyg bod modd dwyn cyhuddiadau troseddol yn erbyn rhai neu bob un o'r personau dan amheuaeth, neu os mai siawns gyfyngedig iawn o lwyddo fydd gan unrhyw erlyniad, mae'n rhaid i'r CPS gynghori'r corff sy'n ymchwilio o hyn. Yn y pen draw yr ymchwiliwr sydd yn penderfynu a ddylid dechrau, parhau neu roi terfyn ar ymchwiliad.

Mae'r CPS yn cyfeirio ar y rhan hon o'r trafodion fel 'cyn-dedfrydu', sydd yn golygu nad oes penderfyniad wedi ei wneud ar y cwestiwn o erlyniad. Mae'r adran ganlynol yn egluro sut mae'r CPS yn penderfynu a ddylid dwyn cyhuddiadau ai peidio.

### **Blwch 3 - Rhoi gwybod i ddiodefwyr**

Pan fydd aelod o deulu rhywun yn marw yn y ddalfa, gall fod yn gyfnod hynod o anodd, a gall gymryd cryn amser i'r ffeithiau i gyd fod yn hysbys. Bydd y CCPS, yr heddlu a'r IPCC yn gwneud pob ymdrech i roi gwybod i berthnasau agos (a ystyrir yn 'ddiodefwyr' os yw trosedd wedi ei chyflawni).

Yn ystod yr ymchwiliad, gall yr ymchwilyr benodi swyddog penodol fydd yn rhannu gwybodaeth gyda'r teulu trwy gydol yr ymchwiliad. I'r heddlu, Swyddog Cyswllt y Teulu (FLO) fydd y person hwn. Bydd yr IPCC yn penodi Rheolwr Cyswllt y Teulu (FLM).

Os yw'r ymchwilyr yn cyfeirio'r mater at y CPS, bydd yr erlynydd gan amlaf yn cysylltu â'r teulu galarus, ac yn cynnig cyfarfod â hwy. Bydd yr erlynydd yn egluro rôl yr ymchwiliwr a'r erlynydd ill dau, y troseddau sydd dan ystyriaeth (er enghraifft, llofruddiaeth neu ddyndladdiad esgeuluster aruthrol) a beth fydd yn rhaid ei brofi ar gyfer pob trosedd. Yn ogystal â hyn, bydd yr erlynydd yn egluro nad oes modd, o reidrwydd, trafod manylion y dystiolaeth sydd eisoes wedi dod i law, gan y gall hyn effeithio ar unrhyw dreial yn y dyfodol. Bydd medru neu fethu trafod y dystiolaeth yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos.

Gall yr ymchwiliadau hyn barhau am gyfnodau hirion iawn. O ganlyniad i hyn, gall oedi na ellir ei osgoi ddigwydd (misoedd yn hytrach nag wythnosau) rhwng cyfarfod â'r teulu galarus a'r penderfyniad i erlyn unigolyn neu sefydliad ai peidio. Fel arfer bydd yr erlynydd yn ysgrifennu at y teulu i egluro'r rheswm am unrhyw oedi. Unwaith mae'r ymchwiliad wedi ei gwblhau, bydd yr erlynydd gan amlaf yn cynnig ail gyfarfod gyda'r teulu galarus er mwyn iddynt godi unrhyw faterion sydd yn peri pryder iddynt ac efallai nad oeddynt yn amlwg yn ystod y cyfarfod cyntaf. Mae croeso bob amser i'r galarus godi unrhyw fater maent yn ei ddymuno gyda'r erlynydd; bydd ganddynt ei fanylion cyswllt.

Pan fydd penderfyniad wedi ei wneud ynghylch erlyniad, bydd yr erlynydd yn ysgrifennu at y teulu i roi gwybod iddynt. Os penderfynwyd dwyn cyhuddiadau, bydd y llythyr yn cadarnhau pwy sydd i'w gyhuddo/chyhuddo, ac ar gyfer pa drosedd(au). Bydd yr erlynydd yn gyfrifol am roi gwybod i'r teulu a'u diweddarau wrth i'r achos fynd trwy'r llysoedd.

Os yw erlynydd yn penderfynu yn erbyn erlyniad, bydd yn ysgrifennu at y teulu i roi gwybod iddynt am hyn. Bydd yn cynnig cyfarfod pellach, a dyma pryd caiff y penderfyniad ei egluro yn fwy manwl.

## **RHAN TRI - Y PENDERFYNIAD I GYHUDDO**

Er mwyn i gyfreithiwr y CPS fedru penderfynu a ddylid dwyn cyhuddiadau, rhaid i'r ymchwiliad fod wedi ei gwblhau, a'r holl dystiolaeth wedi ei chyflwyno i'r CPS. Mae ymchwiliad a gwblhawyd yn foddhaol yn cynrychioli 'ffeil gyflawn' o dystiolaeth. Os nad yw'r ymchwiliad neu'r ffeil dystiolaeth yn gyflawn yna mae'n rhaid i'r CPS gyngori'r ymchwilyr i wneud y gwaith ychwanegol sydd ei angen.

Bydd cyfreithiwr y CPS yn penderfynu a ddylid cyhuddo'r un dan amheuaeth o drosedd ar sail yr holl dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad. Oherwydd difrifoldeb yr achosion hyn, oni bai bod y penderfyniad yn hollol glir heb unrhyw amheuaeth bydd y CPS yn gwneud cais am adolygiad pellach o'r achos gan fargyfreithiwr hŷn, profiadol. Yna bydd pob achos yn cael eu hadolygu yn bersonol gan y DPP ar gyfer ei chymeradwyaeth.

### **Y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron**

Wrth benderfynu a ddylid erlyn ai peidio, mae erlynwyr y CPS wedi eu rhwymo gan 'Arweiniad ar Ddedfrydu' y DPP a'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron ('Y Cod'). Mae'r Cod yn ddogfen sydd ar gael i'r cyhoedd, wedi ei chyhoeddi gan y DPP yn unol ag adran 10 Deddf Erlyn Troseddau 1985. Mae'n cynnwys y 'prawf cod llawn'; proses ystyried ddwy-ran yw hon, yn cynnwys camau Tystiolaethol a Budd y Cyhoedd.

- Mae'r cam Tystiolaethol yn gofyn i erlynwyr fodloni eu hunain bod digon o dystiolaeth ar gael i ddarparu rhagolwg realistig o euogfarn yn erbyn pob un dan amheuaeth ar bob cyhuddiad.
- Mae'r cam Budd i'r Cyhoedd yn gofyn am i'r erlynydd benderfynu a oes angen erlyniad er budd y cyhoedd.

### **Rhaid bodloni dwy ran y prawf cod llawn er mwyn dechrau erlyniad.**

Ni fu rheol erioed bod erlyniad yn digwydd yn awtomatig cyn gynted ag y bo'r cam tystiolaethol wedi ei gwblhau.

Gellir darllen y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron yn ei gyfanrwydd ar wefan y CPS (<https://www.cps.gov.uk/publications/code-for-crown-prosecutors/>)

## Detholiad o gyhuddiadau

Mae'r cod yn darparu arweiniad i erlynwyr ar y detholiad o gyhuddiadau priodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y cyhuddiadau yn adlewyrchu difrifoldeb a maint y troseddu, wedi ei gefnogi gan y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad.

Mae pob achos sydd yn ymdrin â marwolaeth yn y ddalfa yn unigryw, a bydd y cyhuddiadau yn dibynnu ar y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad. Am y rheswm hynny, nid yw'n bosibl rhagweld pa gyhuddiadau penodol a gânt eu hystyried.

Fodd bynnag, ystyriaeth gyffredin i'r cyfreithiwr sydd yn adolygu fydd a ddylai'r diffynnydd yn yr achos wynebu cyhuddiadau o **ddynladdiad oherwydd esgeuluster aruthrol**. Caiff y drosedd hon ei hystyried yn gyffredin mewn achosion sydd yn ymdrin â marwolaeth yn y ddalfa. Ar gyfer euogfarn, mae'r gyfraith yn gofyn bod y rheithgor yn sicr bod pob un o'r elfennau a ganlyn wedi eu profi y tu hwnt i amheuaeth resymol yn erbyn pob diffynnydd.

- **Roedd gan yr un dan amheuaeth ddyletswydd gofal yn y gyfraith i'r dioddefwr.** Term cyfreithiol yw dyletswydd gofal sy'n golygu bod gan y diffynnydd ddyletswydd cyfreithiol i ymddwyn mewn modd penodol tuag at yr un fu farw. Er enghraifft, mae gan berson sydd wedi ei restio hawl i ddyletswydd gofal yn y gyfraith tra yn y ddalfa. Mae'r union ddyletswydd yn dibynnu ar rôl yr un dan amheuaeth.
- **Roedd yr un dan amheuaeth yn esgeulus - roedd wedi torri y ddyletswydd.** Ystyr 'torri' yw bod y ffordd roedd y diffynnydd wedi ymddwyn ddim yr hyn y dylai fod, ac wedi disgyn yn is na'r safon isaf sydd yn ofynnol.
- **Y toriad oedd achos y farwolaeth.** Rhaid bod cyswllt y gellir ei brofi rhwng toriad dyletswydd y diffynnydd, a'r farwolaeth. Pe byddai'r un fu farw wedi, neu fe allai fod wedi marw beth bynnag, ni fydd yr elfen hon wedi ei phrofi. Mae hyn yn aml yn destun tystiolaeth feddygol fanwl neu dystiolaeth arbenigol arall.



- **Roedd y toriad yn enbyd**, sef bod y toriad dyletswydd yn rhywbeth oedd wedi disgyn ymhell islaw yr hyn y gellid fod wedi ei ddisgwyl. Rhaid bod risg ddifrifol ac amlwg o farwolaeth, nid mater o niwed difrifol yn unig. Nid yw camgymeriadau, hyd yn oedd camgymeriadau difrifol iawn, yn ddigonol ar gyfer yr elfen hon; rhaid i'r gweithredoedd fod yn 'wirioneddol, yn eithriadol o wael' i gael eu hystyried yn droseddol.

O bryd i'w gilydd gofynnir i gyfreithwyr sydd yn adolygu ystyried achosion ble mae person wedi marw o ganlyniad i gael ei saethu gan yr heddlu. Gall hyn gynnwys penderfyniad i ddwyn cyhuddiadau yn erbyn y swyddog oedd wedi saethu'r fwled angheuol. Er y gall heddlu arfog ddefnyddio grym marwol pan fo angen gwneud wrth gyflawni eu dyletswydd, maent yn atebol i'r un cyfreithiau ynghylch hunanamddiffyn a'r defnydd o rym rhesymol ag aelodau o'r cyhoedd. Mae hyn yn golygu bod gweithredoedd heddwes sydd wedi defnyddio grym marwol yn cael ei farnu ar hyn - a oedd y grym hwn yn angenrheidiol yn yr amgylchiadau fel yr oedd yr heddwes yn credu ei fod, hyd yn oed os oedd y gred yn anghywir. Nid yw'n drosedd i heddwes weithredu ar gred anghywir ond a gredai ef oedd o ddifrif ynghylch bygythiad a wynebai, er po fwyaf afresymol y gred mae'n llai tebygol y bydd llys yn dod i'r casgliad bod y gred honno yn un onest. Ar ben hynny, rhaid i'r defnydd o rym fod yn rhesymol, yn wrthrychol, yn yr amgylchiadau roedd yr heddwes yn credu ei fod.

### **Achosion pan na ddygir cyhuddiadau**

Os yw'r CPS yn penderfynu na ddylid dwyn cyhuddiad, bydd yr erlynydd yn ysgrifennu at berthnasau yr un a fu farw yn rhoi rhesymau manwl dros benderfyniad y CPS i beidio ag erlyn. Os yw cwest wedi cael ei atal dros dro tra yn disgwyl am ganlyniad yr ymchwiliad troseddol, gan amlaf bydd yn ailddechrau ar yr adeg hon.

Mae gan berthnasau yr un a fu farw yr hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad dan y cynllun **Victims Rights to Review (VRR)**. Dan VRR, mae gan ddiodefwyr hawliau cyfreithiol i gyrchu adolygiad o'r penderfyniad i beidio erlyn. Mae hyn yn berthnasol hefyd i benderfyniadau y CPS i beidio parhau neu i roi terfyn ar achos. Proses fewnol a gynhelir oddi mewn i'r CPS yw adolygiad dan gynllun y VRR.

Mae'n bwysig nodi er mwyn galw am yr hawl i adolygiad dan y VRR, rhaid i'r penderfyniad i beidio dwyn cyhuddiadau gael ei ystyried yn 'benderfyniad

cymhwysol', a wnaed ar neu yn dilyn dyddiadau penodol. Gellir cael gwybodaeth lawn am VRR ar

[https://www.cps.gov.uk/victims\\_witnesses/victims\\_right\\_to\\_review/index.html](https://www.cps.gov.uk/victims_witnesses/victims_right_to_review/index.html).

Nid oes hawl i gael adolygiad pellach o benderfyniad y VRR.

Mae gan berthnasau hawl hefyd i ddwyn erlyniad preifat yn erbyn y parti neu'r partion maen nhw'n credu oedd wedi achosi'r farwolaeth. Gall cyfreithiwr gynnig cyngor am hyn. Os daw'r CPS yn ymwybodol o erlyniad preifat, gall fod angen i ni benderfynu a ddylem gymryd drosodd. Gellir darllen polisi y CPS ar erlyniadau preifat ar

[http://www.cps.gov.uk/legal/p\\_to\\_r/private\\_prosecutions/](http://www.cps.gov.uk/legal/p_to_r/private_prosecutions/)

Os bydd y CPS yn cymryd erlyniad preifat drosodd ac yna yn peidio parhau ag ef, gall y penderfyniad hwnnw hefyd fod yn gymwys ar gyfer y broses VRR, os yw'r teulu yn gwneud cais am hyn.

Yn ogystal â defnyddio'r cynllun VRR, gall teuluoedd ddal i ddewis adolygiad barnwrol o benderfyniad i beidio erlyn. Mae hyn yn galw am gyflwyno cais ffurfiol i'r Uchel Lys. Gofynnir i'r Uchel Lys ystyried a oedd y CPS yn anghywir yn gyfreithiol i beidio â dwyn cyhuddiadau. Os yw'r Uchel Lys yn penderfynu ystyried y mater (a elwir yn 'rhoi caniatâd') bydd yn adolygu y penderfyniad gwreiddiol, a gall ofyn, yn y pen draw, i'r CPS ail ystyried eu penderfyniad.

Yn olaf, dylid cofio nad yw penderfyniad gan y CPS i beidio dwyn cyhuddiadau yn effeithio ar allu y Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE) i erlyn. Mae'r HSE yn gweithredu yn hollol annibynnol ar y CPS a bydd yn erlyn os oes tystiolaeth o droseddau yn erbyn Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974.

## **Achosion pan ddygir cyhuddiadau**

Os yw'r erlynydd yn penderfynu y dylai'r un dan amheuaeth gael ei gyhuddo o drosedd, bydd yr achos yn mynd i dreial. Bydd y diffynnydd yn cael gwybod yn ffurfiol, a chais i ymddangos yn y llys. Yn nodweddiadol, bydd gofyn iddynt ymddangos mewn Llys Ynadon, ble caiff yr achos ei drosglwyddo yn aml (ei 'anfon') i lys y Goron, yn dibynnu ar rai ffactorau

megis difrifoldeb y cyhuddiadau a wynebir. Bydd pob achos o ddynladdiad, gan gynnwys dynladdiad ar sail esgeulustod aruthrol, yn cael eu trosglwyddo ar unwaith i Lys y Goron.

Pan fydd achos yn mynd yn ei flaen i lys troseddol, bydd y trefniant yn fater i'r llys ei hunan. Rheolau Gweithdrefn Droseddol sydd yn llywodraethu'r ffordd y caiff achosion eu rheoli.

Bydd y CPS yn rhoi dyddiadau'r gwrandawiadau a'u lleoliad i'r perthnasau, a bydd y teulu yn cael gwybod am unrhyw benderfyniad am fechniaeth. Os bydd unrhyw newidiadau i'r cyhuddiad, neu os yw'r erlynydd yn derbyn newid ple o euog i gyhuddiad llai, bydd y teulu yn cael gwybod.

**Mae'r rhagdybiaeth o fod yn ddieuog** mewn achosion troseddol yn golygu bod yn rhaid i'r erlyniad brofi euogrwydd er mwyn bod y rheithgor yn sicr. Os oes unrhyw amheuaeth resymol, rhaid i'r rheithgor ryddfarnu. Mewn treial troseddol, mae'n rhaid i'r erlyniad brofi euogrwydd y tu hwnt i amheuaeth resymol. Nid oes yn rhaid i'r diffynnydd brofi unrhyw beth, ac fe dybir ei fod/bod yn ddieuog nes ei gael yn euog i argyhoeddi'r rheithgor.

## **ATODIAD A - siart llif o brosesau CPS**

Mae marwolaeth wedi digwydd yn y ddalfa

Bydd ymholiadau lleol yn digwydd i amgylchiadau'r farwolaeth, a byddant yn penderfynu a oedd trosedd wedi ei chyflawni.

Bydd perthnasau agos yr un fu farw yn cael gwybod.

Caiff y crwner wybod

Bydd y crwner - swyddog barnwrol annibynnol sydd yn eistedd yn llys y crwner - yn cael gwybod. Bydd y crwner yn agor ac yna yn gohirio cwest i'r farwolaeth.

Ymchwiliad troseddol

Os oedd y farwolaeth yn cynnwys cyswllt gyda swyddogion yr heddlu, cynhelir yr ymchwiliad gynnal gan yr IPCC. Mewn amgylchiadau eraill caiff ei gynnal gan yr heddlu. Bydd yr ymchwiliwr(wyr) yn hel tystiolaeth am yr hyn oedd wedi digwydd. Bydd yr ymchwiliwyr yn cynnig cwrdd â theulu'r person fu farw.

Pan fydd ymchwiliad troseddol yn dechrau, mae'n debygol y bydd y crwner yn gohirio'r ymchwiliad nes i'r ymchwiliad troseddol ddod i ben.

## Cyfreithwyr CPS

Pan gânt wybod am farwolaeth yn y ddalfa, bydd y CPS yn penodi un o nifer fechan o erlynwyr a ddewiswyd yn benodol o'r uned "Trosedd Arbennig" (uned oddi mewn i'r Adran Troseddau Arbennig a Gwrth frawychiaeth - SCCTD). Mae'r rhain yn erlynwyr profiadol sydd wedi eu hyfforddi a'u hachredu i drafod yr achosion sensitif hyn.

Tasg y cyfreithiwr hwnnw fydd cynghori'r ymchwilyr, ac yn y pen draw i ystyried yr holl dystiolaeth er mwyn penderfynu a oes digon o dystiolaeth ar gael i erlyn.

## Y CPS yn cynghori'r ymchwilyr

Bydd cyfarfod cynnar gyda'r ymchwilyr (1) i edrych ar ystod tebygol ymwneud y CPS (2) i sicrhau cyswllt gyda'r teulu a'r crwner; a (3) i sicrhau bod yr holl gyrff sydd yn ymchwilio yn ymhél â'i gilydd ac yn cydweithio. Caiff hyn ei gefnogi gan gyngor ysgrifenedig gan y CPS. Mae'r cyngor ysgrifenedig yn debyg o gynnwys (a) crynodeb byr o elfennau cyfreithiol y drosedd/troseddau dan ystyriaeth a'r rhwystrau tystiolaethol posibl bydd yn rhaid eu goresgyn, a (b) arweiniad fesul cam o'r ffordd orau i wneud y gwaith ymchwilio.

Gan amlaf bydd erlynydd y CPS yn cynnig cwrdd â pherthnasau'r un fu farw.

Y CPS yn cwrdd â theulu'r un fu farw.

Pwrpas y cyfarfod cyntaf yw egluro'r gyfraith a'r prosesau ynghlwm, ac i reoli disgwyliadau ynghylch ymchwiliad all fod yn un hir.

Mae tair sefyllfa bosibl pan na fydd cyfarfod yn digwydd:

(a) y teulu yn gwrthod y cyfle;

(b) cyswllt cyfredol yr heddlu/cyswllt IPCC yn mynd yn dda a'r amser yn agos iawn i ddyddiad y farwolaeth;

(c) rôl y CPS yw cyngor cynnar iawn cyn bod yr heddlu /IPCC wedi penderfynu cynnal ymchwiliad troseddol.

Erlynydd y CPS yn ysgrifennu ar y crwner

Mae erlynydd y CPS yn ysgrifennu ar y crwner i egluro ymrwymiad y CPS. Gan amlaf bydd unrhyw gwest yn cael ei ohirio dros dro gan y crwner, yn ystod y penderfyniad ar erlyniad.

Lle mae'r posibilrwydd o gyhuddiad o ddynladdiad, bydd y crwner gan amlaf yn agor ac yna yn gohirio'r cwest dros dro.

Dywed y gyfraith bod yn rhaid i grwner ohirio'r cwest dros dro os yw person

(a) wedi ei gyhuddo o ddynladdiad neu

(b) wedi ei gyhuddo o drosedd gysylltiedig nad yw'n ddynladdiad a bod y DPP yn gofyn am ohirio dros dro

Fodd bynnag, nid oes yn rhaid i'r crwner ohirio dros dro os yw'r DPP yn dweud nad oes ganddo ef/ganddi hi wrthwynebiad neu os yw'r crwner yn meddwl bod rheswm arbennig dros beidio gohirio dros dro.

Y CPS ar gael i gynghori'r ymchwiliwyr

O hynny ymlaen, cyhyd ag y bo'r CPS yn cael cais i barhau i ymwneud, bydd cyfreithiwr yr achos yn bwrw ati i osod allan a monitro graddfeydd amser ar gyfer gweithio'n amserol ac yn effeithiol, ac yn parhau i fod ar gael i gynnig cyngor i'r heddlu /IPCC ar bob agwedd o adeiladu achos, gan gynnwys awgrymu (a drafftio telerau cyfeirio ar gyfer) arbenigwyr. Os bydd yr erlynydd ar unrhyw adeg yn ystyried nad oes unrhyw ragolwg o erlyniad neu bod erlyniad posibl yn gyfyngedig, yna mae'n rhaid iddo gynghori'r ymchwiliwr.

Yr ymchwiliad yn parhau

Mae'r ymchwiliwr yn dal i hel tystiolaeth sydd yn gysylltiedig ag amgylchiadau'r farwolaeth, gan gyrchu cyngor y CPS fel y bod angen.

Yn aml, mae achosion sydd yn cynnwys marwolaeth yn y ddalfa angen tystiolaeth gan arbenigwyr meddygol profiadol iawn ac yn aml hefyd mae angen sawl arbenigwr. Mae'n rhaid i'r arbenigwyr gael yr holl dystiolaeth i edrych arno. Mae hyn yn golygu, yn aml, na fedrant ysgrifennu eu hadroddiadau arbenigol nes bod llawer mis wedi mynd heibio.

Chwe mis wedi'r farwolaeth

Cyn cyrraedd y chwe mis, mae'n rhaid ystyried unrhyw droseddau diannod. Trosedd ddiannod yw un y mae'n rhaid ei phrofi mewn llys ynadon: er enghraifft, ymosodiad cyffredin. Bydd y CPS yn tynnu sylw'r ymchwilyr at hyn mewn modd amserol er mwyn sicrhau, os yw'r ymchwilyr yn dymuno cyflwyno ffeil trosedd ddiannod, eu bod yn gwneud hynny yn ddi-oed. Pan fydd ffeil o'r fath yn cael ei chyflwyno, caiff ei hadolygu yn y modd arferol, gan greu Nodyn Adolygu a hysbysu'r penderfyniad i'r teulu ac i'r ymchwilyr.

Cyfarfodydd pellach gyda'r teulu

Gan amlaf bydd tri cham pan fydd cyfarfod ar gynnig - ar ddechrau'r ymchwiliad, cyn penderfynu yn derfynol ar gyhuddo, ac ar ôl y penderfyniad i gyhuddo. Dylai'r IPCC neu Swyddogion Cyswllt y Teulu gynnig diweddariadau yn rheolaidd ond o bryd i bryd bydd cyfarfodydd ychwanegol yn briodol.

Oes yna 'ffeil gyflawn'?

Cyn y gall cyfreithiwr y CPS benderfynu a ddylid dwyn cyhuddiad ai peidio, rhaid bod yr ymchwiliad wedi ei gwblhau a'r holl dystiolaeth wedi ei

throsoglwyddo i'r CPS. Caiff hyn ei ddisgrifio yn aml fel rhoi 'ffeil gyflawn' o dystiolaeth i'r CPS. Os nad yw'r ymchwiliad neu'r ffeil dystiolaeth yn gyflawn, rhaid i gyfreithiwr y CPS gynghori'r ymchwilyr i wneud gwaith pellach.

Mae'r ymchwiliwr yn gorffen yr ymchwiliad

Pan fydd yr ymchwiliad wedi gorffen, os yw'r ymchwiliwr yn meddwl bod trosedd wedi ei chyflawni, byddant yn gofyn i'r CPS benderfynu a ddylid erlyn. Mae'r CPS yn defnyddio cyfreithwyr profiadol ar gyfer hyn, ac mae'r DPP yn edrych ar bob achos er mwyn gwirio'r penderfyniad.

Dywed y gyfraith bod yn rhaid i ymchwiliad ddilyn pob llinell ymholiad resymol p'un ai eu bod yn pwyntio at euogrwydd neu fel arall. Lle mae diffyniadau posibl mae'n rhaid i'r rhain gael eu cadarnhau neu eu gwrthod cyn y gellir dweud bod ymchwiliad wedi ei gwblhau.

Cyfarfod â'r teulu cyn penderfyniad

Wedi i'r CPS ddarllen y ffeil gyflawn, ond cyn gwneud penderfyniad ynghylch cyhuddo, mae'r teulu yn cael cynnig cyfarfod arall:

- (1) i egluro, mewn termau cyffredinol, y materion yn yr achos, ac
- (2) i sicrhau eu bod wedi cael cyfle i godi unrhyw fater arall yr hoffent eu ystyried cyn i'r penderfyniad gael ei wneud.

Mae gan y DPP drosolwg

Unwaith mae'r DPP yn fodlon, mae'r penderfyniad yn derfynol (heblaw am unrhyw newid mewn tystiolaeth neu unrhyw broses apêl).



Gwneir penderfyniad i gyhuddo

Os nad oes erlyniad gan y CPS

Os penderfynir peidio erlyn bydd y teulu yn derbyn llythyr yn egluro'r penderfyniad. Cynigir cyfarfod arall.

Gall y teulu ofyn am adolygiad arall

### **VRR a gwelliannau eraill ar gael i'r teulu**

Os yw'r CPS yn penderfynu peidio dwyn cyhuddiad gall y teulu ofyn am adolygu'r penderfyniad. Mae'r cynllun [Victims' Right to Review scheme](#) i'w weld yn llawn ar wefan y CPS. Mae hyn yn cynnwys adolygiad arall o'r achos gan erlyniwr gwahanol. Does dim hawl i gael adolygiad arall o adolygiad y VRR.

Mae gan y DPP drosolwg

Unwaith mae'r DPP yn fodlon, mae'r penderfyniad yn derfynol (heblaw am unrhyw newid mewn tystiolaeth neu unrhyw broses apêl).

Gwneir penderfyniad i gyhuddo

Os nad oes erlyniad gan y CPS

Os penderfynir peidio erlyn bydd y teulu yn derbyn llythyr yn egluro'r penderfyniad. Bydd cyfarfod arall yn cael ei gynnig.

Gall y teulu ofyn am adolygiad arall

VRR a gwelliannau eraill ar gael i'r teulu

Os yw'r CPS yn penderfynu peidio dwyn cyhuddiad gall y teulu ofyn am adolygu'r penderfyniad. Mae'r cynllun Victims' Right to Review' i'w weld yn llawn ar wefan y CPS. Mae hyn yn cynnwys adolygiad arall o'r achos gan erlynydd gwahanol. Does dim hawl i gael adolygiad arall o adolygiad y VRR.

Mae gan deuluoedd yr hawl hefyd i ddwyn erlyniad preifat gerbron a gall eu cynghorwyr cyfreithiol roi'r wybodaeth angenrheidiol iddynt. Os daw'r CPS yn ymwybodol o erlyniad preifat fe all y bydd angen i ni ystyried a ddylem gymryd drosodd. Mae'r [polisi erlyn preifat](#) yn egluro sut mae hyn yn gweithio.

Os yw'r CPS yn cymryd erlyniad preifat drosodd ac yn ei derfynu, byddai'r penderfyniad fel arfer yn atebol i broses y VRR, os yw'r teulu yn gofyn am hyn.

Yn ogystal, fe all y teuluoedd ystyried adolygiad barnwrol o'r penderfyniadau i beidio ag erlyn yn yr achos cyntaf neu i gymryd erlyniad preifat drosodd i roi terfyn arno. Mae hawl gan deuluoedd i'w cyngor cyfreithiol eu hunain ond yn gyffredinol bydd y llysoedd yn disgwyl defnyddio proses y VRR cyn gwneud cais o'r math hwn.

Gall fod erlyniad gan yr HSE

Gall y Gweithgor Iechyd a Diogelwch erlyn am droseddau dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle. Gellir canfod mwy o wybodaeth ar [wefan HSE](#).

Cwest

Os yw'r erlynydd yn penderfynu peidio dwyn achos yn erbyn (a bod yr HSE ddim yn erlyn) yr un dan amheuaeth, bydd y crwner yn cael gwybod ac yna

yn trefnu dyddiad ar gyfer y cwest (neu yn parhau â'r cwest, os oedd hwnnw wedi cael ei ohirio dros dro yn disgwyl canlyniad yr ymchwiliad).

Crwner yn adrodd ar y terfyniad

Terfyniad y cwest

Mae llawer canlyniad y gellir eu rhoi sydd yn cynnwys (heb fod yn gyflawn):

*achosion naturiol, hunan-laddiad, damwain/anffawd, llad cyfreithlon, lladd anghyfreithlon, rheithfarn agored, casgliad naratif.*

Mae rheithfarn cwest crwner o ladd anghyfreithlon wedi ei seilio ar ddiffiniadau cyfreithiol tebyg i'r troseddau o lofruddiaeth neu ddynladdiad, yn dibynnu ar ffeithiau'r achos. Fodd bynnag:

- Mewn erlyniad troseddol, mae rheolau tystiolaeth yn wahanol i'r rheolau mewn cwest.
- Pwrpas cwest yw penderfynu achos y farwolaeth y hytrach nag erlyn person.
- Mae hawliau ychwanegol i ddiffynyddion mewn treialon troseddau nad ydynt yn bodoli mewn cwest.

Gall y CPS ailystyried penderfyniad i beidio cyhuddo

Os ceir casgliad naratif ar ddiwedd cwest, neu gasgliad o ladd anghyfreithlon, byddwn yn ystyried a oes unrhyw beth a fyddai'n newid ein penderfyniad gwreiddiol neu'n golygu y dylid cael erlyniad. Mae hyn yn fwy amlwg pan ddaw'r casgliad o ladd anghyfreithlon, ond rôl y CPS yw adolygu'r dystiolaeth ac ni ddylem ddilyn casgliad y cwest yn unig. Caiff ymchwiliad cyhoeddus ei ystyried yn yr un modd. Er mwyn rhoi penderfyniad y CPS ar ddeall bydd yr heddlu/IPCC yn gofyn am adroddiad yn amlygu y manau hynny ble roedd y

dystiolaeth a adolygwyd gan y CPS wrth gyrraedd y penderfyniad i gyhuddo wedi newid.

Gall y teulu ofyn am adolygiad arall

Cais am adolygiad barnwrol yw cais i'r Uchel Lys am ddyfarniad bod penderfyniad y CPS yn anghywir, ac y dylid edrych arno eto neu ei newid. Mae hawl gan deuluoedd gael eu cyngor cyfreithiol eu hunain, ond yn gyffredinol mae'r llysoedd yn disgwyl bod proses y VRR wedi ei dilyn cyn i gais o'r math hwn gael ei wneud.

Os bydd erlyniad gan y CPS

**Cyhuddiad:** Mae'r diffynnydd yn cael ei gyhuddo/chyhuddo ac yn gorfod mynd gerbron y llys

**Paratoad:** bydd nifer o wrandawiadau paratoadol, a rhaid gosod y dystiolaeth gan y CPS ar y diffynnydd a'r llys.

**Gwrandawid Ple a Rheolaeth Achos:** dyma pan ofynnir i'r diffynnydd a yw'r pledio'n euog neu yn ddiheuog.

Os yw'r diffynnydd yn pledio'n ddiheuog cynhelir treial. Efallai na fydd hyn yn digwydd am sawl mis. Gall llawer o ddadleuon cyfreithiol ddigwydd rhwng y CPS a'r amddiffyniad yn ystod y cyfnod hwn. Weithiau mae dadleuon cyfreithiol yn y llys hefyd.

**Treial:** bydd rheithgor yn clywed yr holl dystiolaeth a ganiateir yn y treial ac yn penderfynu a ydynt yn sicr bod y diffynnydd yn euog. Os dyfernir bod y diffynnydd yn "ddiheuog" nid oes modd i'r CPS apelio.

Erlyniad preifat gan y teulu?

Mae gan deuluoedd yr hawl hefyd i ddwyn erlyniad preifat, a gall eu cynghorwyr cyfreithiol ddarparu'r holl wybodaeth sydd ei angen arnynt. Os daw'r CPS yn ymwybodol o erlyniad preifat gall fod angen i ni ystyried a ddylem ni ei gymryd drosodd.

Gall penderfyniad gan y CPS i atal erlyniad preifat hefyd fod yn destun VRR neu gais am adolygiad barnwrol.

Os yw'r CPS yn cymryd erlyniad preifat drosodd ac yn parhau ag ef, byddai'r penderfyniad yn agored i broses y VRR.

Cyfarfod gyda'r teulu

Cynigir cyfarfod i egluro beth fydd yn digwydd yn ystod yr erlyniad.

Am wybodaeth ynghylch Gwasanaeth Erlyn y Goron,  
ac i edrych ar neu i lawr lwytho copi electronig  
o'r arweiniad hwn, ewch i'n gwefan :

[www.cps.gov.uk](http://www.cps.gov.uk)